

## Canllawiau i Oruchwylwyr Addysgol ar Amser Datblygu Addysgol

Mae'r canllawiau hyn i'w defnyddio ochr yn ochr â'r ddogfen "Amser Datblygu Addysgol i Hyfforddeion: Egwyddorion Allweddol". Mae'n berthnasol i Oruchwylwyr Addysgol hyfforddeion meddygol ôl-raddedig mewn lleoliadau gofal eilaidd. Mae'r prif egwyddorion wedi cael eu rhannu'n helaeth gyda'r rhanddeiliaid perthnasol ym Myrddau Iechyd Prifysgol Cymru ac o fewn AaGIC.

Mae'n bwysig bod Amser Datblygu Addysgol hyfforddai (EDT) yn cael ei gofnodi'n gywir. Felly, rydym yn gofyn i Oruchwylwyr Addysgol ymgymryd â'r camau canlynol:

1. Yn ystod eich cyfarfod addysgol cyntaf gyda'ch hyfforddai, adolygwch y rota i sicrhau bod EDT wedi cael ei roi ar restr ddyletswydd yn briodol.
2. Dylai CDP yr hyfforddai gynnwys gweithgareddau / nodau penodol i'w cyflawni yn ystod EDT, gan nodi'n glir sut y bydd hyn yn cael ei gyfiawnhau â thystiolaeth.
3. Gofynnir i'r hyfforddai fyfyrion ar y canlyniadau dysgu ar ddiwedd cyflawniad o weithgaredd EDT. Dylai'r myfyrdod hwn, a'r dystiolaeth o weithgaredd EDT a gytunwyd ar y cyd, gael eu gweld yn glir ar e-bortffolio'r hyfforddai. Bydd hyn yn galluogi iddo gael ei adolygu mewn cyfarfodydd addysg dilynol ac wrth baratoi ar gyfer Adolygiad Blynyddol o Ddilyniant Cymwyseddau (ARCP).
4. Bydd angen i adroddiad Goruchwylwr Addysgol ARCP gynnwys crynodeb o weithgareddau EDT yr hyfforddai.

Bydd cyflwyno EDT yn gysyniad newydd ar gyfer rhai arbenigeddau a rhaglenni hyfforddi, fodd bynnag i eraill, mae hyn wedi'i wreiddio ers peth amser. Mae'n debygol y bydd ysgolion unigol wedi addasu'r canllawiau i gyd-fynd â'u harbenigedd orau ac efallai eu bod hefyd wedi derbyn canllawiau ynghylch EDT gan eu priod golegau. Lle mae materion a brofwyd wrth drefnu EDT oherwydd rotas ac ati dylid codi'r rhain yn lleol yn y lle cyntaf o fewn yr adran. Os oes angen, dylid eu codi yn ogystal ar lefel y Bwrdd Iechyd gydag arweinwyr lleol h.y. Cyfarwyddwr Rhaglen Sylfaen, Arweinwyr Cyfadran Leol. Yna dylid uwchgyfeirio materion sydd heb eu datrys i Bennaeth yr Ysgol. Lle mae ymholiadau'n ymwneud â phriodoldeb a'r defnydd o EDT, dylai'r rhain fynd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant perthnasol.